OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2292 (Cy.228)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistasio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2003

Wedi'u gwneud - -	*5 Medi 2003*
Yn dod i rym - -	*6 Medi 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistasio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar 6 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistasio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002

2.—(1) Diwygir paragraff (1) o reoliad 2 (dehongli) i Reoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistasio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2)(**3**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn lle'r diffiniad o "the Commission Decision", rhodder y diffiniad a ganlyn —

""the Commission Decision" means Commission Decision 2002/80/EC imposing special conditions on the import of figs, hazelnuts and pistachios and certain products derived thereof originating in or consigned from Turkey(**4**) as amended by Commission Decision 2002/233/EC(**5**), Commission Decision 2002/679/EC(**6**) and Commission Decision 2003/552/EC(**7**));".

(3) Yn lle paragraff (4) o reoliad 4 rhoddir y paragraff a ganlyn —

"(4) The requirements are those specified in —

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 (p. 68).
(**3**) O.S. 2002/2296 (Cy.225).
(**4**) OJ Rhif L34, 5.2.2002, t.26.
(**5**) OJ Rhif L78, 31.3.2002, t.14.
(**6**) OJ Rhif L229, 27.8.2002, t.37.
(**7**) OJ Rhif L187, 26.7.2003, t.47.